Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

28 Ionawr 2021

Annwyl Eluned,

**Adroddiad Gwaddol y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar gyfer y Pumed Senedd**

Wrth i'r Bumed Senedd dynnu at ei therfyn, mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wrthi'n cynnal archwiliad o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor.

Mae wedi bod yn gyfnod prysur a chynhyrchiol i'r Pwyllgor a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd, yn enwedig o ystyried yr heriau sylweddol yn sgil y pandemig COVID-19.

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i ystyried materion Gwaddol, mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael diweddariad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y cynnydd a wnaed mewn cysylltiad ag argymhellion yn yr adroddiad a ganlyn:

**Cefnogi a hybu'r Gymraeg**

At hynny, hoffai'r Pwyllgor ddwyn eich sylw at y ffaith ei fod yn bwriadu argymell i'r Pwyllgor olynol y dylid bwrw golwg o'r newydd ar y materion a godwyd yn yr adroddiadau a ganlyn, yn gynnar yn y Chweched Senedd:

**Effaith Brexit ar y sector celfyddydau, diwydiannau creadigol, treftadaeth a'r iaith Gymraeg**

**'Gwireddu'r Uchelgais': Ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru**

**Ymchwiliad y Pwyllgor i'r 'Gymraeg mewn Byd Digidol'**

Roedd y Pwyllgor wedi bwriadu cynnal ymchwiliad i'r materion sy'n codi o dwf cyflym technoleg ddigidol a'r heriau penodol y mae ieithoedd lleiafrifol yn eu hwynebu yn sgil hyn. O ystyried mai Saesneg yn aml yw iaith ddiofyn meddalwedd a llwyfannau digidol newydd, y bwriad oedd edrych ar sut mae argaeledd rhyngwynebau digidol yn y Gymraeg yn effeithio ar dwf yr iaith. Yn benodol, roeddem yn bwriadu edrych ar gyflawni **Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg** Llywodraeth Cymru.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

Tarfwyd ar yr amserlen ar gyfer y gwaith hwn gan yr achosion o COVID-19 a'n penderfyniad i ganolbwyntio ein gwaith ar effaith y pandemig ar y sefydliadau o fewn ein cylch gwaith. Ers ailddechrau ein rhaglen waith, rydych wedi cyhoeddi'r **Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg: adroddiad cynnydd 2020**, sy'n mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o gylch gorchwyl yr ymchwiliad.

A fyddech cystal â darparu dadansoddiad o'r cyllid ar gyfer pob ffrwd gwaith **presennol** a **newydd** (lle y bo'n bosibl) ac amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer datblygu. Deallaf hefyd fod Prifysgol Bangor wedi cynnig newidiadau strwythurol sylweddol yn ddiweddar i wasanaethau academaidd a phroffesiynol yn y sefydliad, sy'n cynnwys Canolfan Bedwyr. Pa bryderon sydd gennych chi, Weinidog ynglŷn â'r cynigion, a pha fesurau lliniaru sydd ar waith i sicrhau nad yw'r ailstrwythuro arfaethedig yn effeithio ar ffrydiau gwaith?

Bydd y crynodeb yn cyd-fynd ag argymhelliad i bwyllgor yn y dyfodol sydd â chylch gwaith y Gymraeg yn y Chweched Senedd barhau i ymchwilio i'r materion hyn.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael diweddariad cyn gynted ag y bo modd, a heb fod yn hwyrach na 1 Mawrth 2021.

Yn gywir

Bethan Sayed

Bethan Sayed AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu